

## Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (MPDMG)

3 Gorffennaf 2020



### Yn bresennol

Cadeirydd - Phil Coates, Rebecca Rees, Geraint Horton (Llywodraeth Cymru), Rachel Mulholland (Cefas), Karen Perrow a Wendy Dodds (NRW), Lindsay Christian (Cyngor Casnewydd), Wayne Hope (Cyngor Sir Ddinbych), Suzanne Thomas (LIC – Twristiaeth), Alan Groves (LIC - Cynllunio), Morgan Edwards (LIC – Trwyddedu Morol), Jennifer Grubb (Dŵr Cymru), Johnathon Monk (MHPA), Nathan Slater (Cyngor Bro Morgannwg), Andrew Brown (Y Gronfa Loteri Fawr), Martin Thomas (Trinity House), James Stewart (Awdurdod Cadwraeth a Physgodfeydd Glannau Dyfnaint ac Afon Hafren), Karin Bennett, Emma Burden a Jon Wilson (MOD), Inger Soderstrom (OPRED), Nick Salter (MCGA), Richard Matthams (Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr)

1. Rhoddwyd gwybod i'r rhai a oedd yn bresennol bod y [Canllawiau Gweithredu](#) bellach wedi'u cyhoeddi ar ôl eu cymeradwyo gan yr arweinydd polisi a bod aelodau'r Grŵp yn cael eu rhannu gyda'u rhanddeiliaid. Diolchwyd i'r aelodau am eu sylwadau a'u mewnbwn yn y broses o lunio'r ddogfen. Y bwriad o ran rheoli'r gwaith o gynhyrchu fersiynau o'r Canllawiau yn y dyfodol yw ceisio deall yr hyn sydd wedi gweithio'n dda i rhanddeiliaid ac edrych ar feysydd pellach lle y byddai mwy o ganllawiau yn ddefnyddiol. Bydd y canllawiau yn cael eu hadolygu'n llawn ar ôl iddynt gael eu defnyddio gyda'r Cynllun am gyfnod synhwyrol o amser. Byddai'r rhanddeiliaid yn cael gwybod pryd y byddai hynny'n digwydd fel eu bod yn gallu cyfrannu at y fersiwn diweddaraf. Yn y cyfamser, roedd y tîm yn hapus i dderbyn unrhyw sylwadau neu adborth ar y Canllawiau drwy [flwch post](#) Cynllunio Morol.
2. Rhoddwyd trosolwg i'r Grŵp o brif strwythur y Canllawiau Gweithredu. Mae'r Adrannau Cyflwyniadol yn ymdrin â phethau sy'n berthnasol i'r holl gynigion, penderfyniadau neu bolisiau. Maent yn cynnwys adrannau ar rôl Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol, gwybodaeth am baratoi cynnig, sut i gymhwyso'r polisiau yn y Cynllun a'r derminoleg a ddefnyddir yn y Cynllun a'r Canllawiau Gweithredu. Mae pennod ar gyfer Polisiau Cyffredin a Pholisiau Sector. Mae'r Canllawiau Gweithredu yn egluro y dylid eu darllen ar y cyd â'r Cynllun ac nad ydynt yn cyflwyno polisi newydd. Pan ymgynghorwyd ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, roedd yr adborth a ddaeth i law yn dweud ei fod yn rhy hir. Mae'r Cynllun terfynol yn fwy cryno gyda'r Canllawiau Gweithredu wedi'u rhoi ar wahân. Mae hyn yn golygu bod modd diwygio a diweddarau'r Canllawiau pe bai angen ymgorffori newidiadau heb ddilyn yr un broses ymgynghori ffurfiol y byddai angen ei chynnal ar gyfer y Cynllun.
3. Mae'r tîm Cynllunio Morol yn llunio adroddiad Llywodraethu sy'n ddogfen gyfeirio hyd braich i'r Cynllun Morol ac mae'n nodi pa sefydliadau sy'n gyfrifol am ba swyddogaethau o fewn Ardal Cynllun Morol Cymru. Roedd aelodau'r Grŵp wedi cael y testun cyflwyniadol a'r bennod gyntaf – Dyframaethu a gofynnwyd am adborth. Byddai'r deg pennod nesaf yn cael eu cwblhau mewn ymgynghoriad agos â chynrychiolwyr y sector. Yn debyg i'r Canllawiau Gweithredu, dogfen gyfeirio yw hon felly mae modd ei diweddarau'n hawdd.

Ymholiadau at: [Rebecca.Rees2@gov.wales](mailto:Rebecca.Rees2@gov.wales)

4. Diweddarwyd y grŵp ar rai o'r prosiectau allweddol yr oedd y tîm cynllunio morol yn eu symud yn eu blaen megis weminarau a recordiwyd i esbonio'r broses Cynllunio Morol, y Porthol Cynllunio Morol, prosiect EMFF ar Reoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy sy'n mynd i'r afael â'r bylchau o ran casglu tystiolaeth a gwaith i fwrw ymlaen â'r Canllawiau Gofodol i Sectorau (SLG). Mae SLG yn cymhwyso bioamrywiaeth forol a thystiolaeth economaidd-gymdeithasol sy'n hwyluso cynllunio sectorol i gefnogi prosiectau ar gam cynharach yn y broses ddatblygu ac yn galluogi gwneud penderfyniadau ar sail mwy o wybodaeth. Bydd y SLG yn offeryn cynllunio ategol a bydd yn darparu trosolwg o gwmpas, lleoliad gweithgareddau'r sector a syniad o anghenion y sector yn y dyfodol. Bydd yn helpu i lywio unrhyw ystyriaeth yn y dyfodol o'r Ardal oedd Adnoddau Strategol - pe baent yn symud yn eu blaen yn unigol yn y dyfodol.
5. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar y fframwaith a'r dangosyddion Monitro ac Adrodd. Ym mis Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y [Fframwaith monitro ac adrodd](#) sy'n nodi'r dull gweithredu eang a gymerir i ddatblygu'r gyfres o ddangosyddion i fonitro effeithiolrwydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Y nod yw datblygu'r holl ddangosyddion a'u cyhoeddi ddiwedd 2022, yn unol â'r dull hwnnw. Bydd yr adroddiad monitro tair blynedd cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn 2022. Mae'r dull yn un sy'n integreiddio gofynion ar draws y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir a rhwymedigaethau o dan reoliadau SEA i fonitro effeithiau'r Cynllun ar gynaliadwyedd. Bydd y dangosyddion yn cael eu rhannu'n dri chategori; monitro'r Cynllun Morol / gwneud penderfyniadau, monitro Amcanion / Polisi a monitro cynaliadwyedd. Byddai'r dangosyddion arfaethedig yn cael eu trafod ymhellach gyda'r is-grŵp Monitro ac Adrodd.
6. Gwnaeth y tîm Cynllunio Morol gydnabod bod y blaenoriaethau wedi newid i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol yn sgil y sefyllfa COVID-19 presennol. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi arafu ond cyn hyn, roedd y tîm wedi cwrdd â sawl Awdurdod Cyhoeddus Perthnasol ac roedd yn y broses o baratoi deunydd i'w helpu i drafod yn fewnol gyda'u sefydliadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael adroddiad annibynnol erbyn hyn i fapio pa sefydliadau oedd yn gyfrifol am ba benderfyniadau o fewn Ardal Cynllun Morol Cymru ond byddai angen sicrhau ei ansawdd gyda rhanddeiliaid cyn y gellid darparu'r fersiwn derfynol.